Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysg Gwenllian

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chanolfan Addysg Gwenllian

Mae Canolfan Addysg Gwenllian yn ysgol ddydd annibynnol yng Nghydweli, Sir Gaerfyrddin. Mae'n cynnig addysg wedi'i haddasu'n unigol i hyd at 18 disgybl rhwng 5 a 19 oed ag anghenion cymhleth, yn cynnwys anawsterau cyfathrebu sy'n gysylltiedig ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Ar hyd o bryd, mae 12 disgybl ar y gofrestr. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae pob un o'r disgyblion yn byw gartref gyda'u teulu a'r Saesneg yw eu mamiaith.

Nod yr ysgol yw cynnig profiad addysgol wedi'i addasu'n bersonol i gefnogi datblygiad cymdeithasol, academaidd ac annibynnol ei disgyblion.

Mae'r ysgol mewn eiddo un llawr sy'n cynnig nifer o fannau addysgu bach. Mae lle ychwanegol i ddisgyblion hŷn mewn uned symudol ar y safle. Mae gan yr ysgol ardal chwarae awyr agored fechan ac mae'n defnyddio cyfleusterau lleol oddi ar y safle yn helaeth, er enghraifft ar gyfer nofio a marchogaeth.

Agorodd Canolfan Addysg Gwenllian yn 2012.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys a pherthnasol sydd â ffocws cryf a phriodol ar fodloni anghenion therapiwtig disgyblion, datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu a gwella ymddygiad ac annibyniaeth y disgyblion.

Mae athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn dda iawn. Maent yn defnyddio data yn hynod effeithiol i ddadansoddi ymddygiad disgyblion a chynllunio ar gyfer eu cynnydd. O ganlyniad i waith effeithiol staff, dros gyfnod, mae patrymau ymddygiad cymhleth disgyblion yn gostwng.

Mae disgyblion yn elwa o gymorth cynhwysfawr amrywiaeth briodol o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol, gan gynnwys athrawon, staff cymorth, therapyddion iaith a lleferydd a therapyddion galwedigaethol, ac arbenigwyr ar ddadansoddi ymddygiad cymhwysol. Mae staff yn yr ysgol yn elwa o drafodaethau rheolaidd â'r tîm hwn a'u cyngor ac arweiniad.

Mae arweinwyr yn meithrin diwylliant dysgu cryf ar gyfer yr ysgol. Maent yn cynorthwyo staff yn dda i wella'u medrau a'u harbenigedd. Mae staff yn diweddaru'u medrau a'u harbenigedd yn rheolaidd trwy amrywiaeth o hyfforddiant â ffocws. Mae hyn yn eu helpu i gefnogi anghenion disgyblion yn effeithiol, fel gwella'u cyfathrebu a'u cydweithredu, fel y gallant ymroi'n well i weithgareddau dysgu.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda disgyblion, eu teuluoedd ac asiantaethau priodol fel bod y pontio i'r ysgol mor ddidrafferth â phosibl. Mae staff yn cynnig cymorth defnyddiol fel y gall disgyblion ddechrau mynychu'r ysgol yn raddol wrth iddynt ddod i adnabod staff ac arferion yr ysgol. Ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae staff yn cynorthwyo disgyblion i amlygu lleoliadau cadarnhaol yn y dyfodol, gan gynnwys lleoliadau a gynigir gan y rhiant-gwmni.

Mae adeiladau a thir yr ysgol yn cynnig amgylchedd dysgu bywiog.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant rheolaidd, â ffocws priodol, i'r staff. Fodd bynnag, nid yw'n cynllunio'r hyfforddiant yn strategol fel rhan o'i gylch cynllunio datblygu. Nid yw'n gwerthuso effaith yr hyfforddiant mewn modd strategol yn gyson i sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael yr effaith a gynllunnir.

Nid yw staff yn yr ysgol yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu o arfer dda staff eraill, yn yr ysgol a staff o ddarparwyr eraill.

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Ddatblygu prosesau gwella'r ysgol ymhellach i gynnwys pob agwedd ar flaenoriaethau'r ysgol, gan gynnwys hyfforddiant

A2 Galluogi staff i ddysgu o arfer dda gan staff eraill, yn fewnol ac yn allanol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Ehangu'r cyfleoedd cwricwlaidd i ddisgyblion hŷn er mwyn iddynt gael dysgu achrededig sy'n bodloni eu hanghenion**

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu cynllun masnachol i ddarparu dysgu achrededig priodol ac ystyrlon, sy'n bodloni anghenion disgyblion. Mae disgyblion yn dechrau elwa o'r cyfleoedd cwricwlaidd sy'n cael eu cynnig gan y cynllun hwn. Er mai ond newydd ddechrau y mae'r cwricwlwm newydd hwn, mae disgyblion eisoes yn frwdfrydig ac wedi'u symbylu gan y profiadau dysgu y mae'n eu cynnig. Maent yn datblygu'u medrau dysgu annibynnol yn dda wrth iddynt weithio tuag at achredu'u dysgu, yn unol â'u hanghenion unigol.

Mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn gweithio tuag at TGAU mewn pynciau sy'n symbylu'u dysgu. Mae'r pynciau hyn yn cynnwys mathemateg, cerddoriaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Er mwyn galluogi disgyblion i sefyll arholiadau mewn amgylchedd sy'n gyfarwydd ac yn gyfforddus i'r disgyblion, mae'r ysgol wedi gwneud cais i fod yn ganolfan arholi achrededig gyda CBAC. Disgwylir i'r broses hon gael ei chwblhau cyn diwedd y flwyddyn academaidd hon.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod meini prawf llwyddiant clir a mesuradwy, sy'n cael eu hadolygu a'u monitro'n effeithiol, wedi'u neilltuo i'r holl flaenoriaethau gwella**

Mae prosesau gwella'r ysgol wedi gwella'n dda. Bellach, mae gan yr ysgol gynllun datblygu buddiol ar gyfer yr ysgol (CDY), sy'n rhoi mwy o ffocws, perchenogaeth a chyfrifoldeb i uwch arweinwyr.

Mae'r wybodaeth sy'n llywio'r CDY wedi'i seilio ar broses hunanwerthuso ddefnyddiol. Mae'r cynllun yn rhannu targedau'r ysgol yn gamau llai yn briodol ac mae'n amlygu cyfrifoldebau, tasgau allweddol a meini prawf llwyddiant yn glir. Mae uwch arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau yn y CDY yn drylwyr. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer monitro bob amser yn ddigon clir.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/02/2020